Penderfyniad

# Datganiad Cam 1 yr Asesiad Dyluniad Generig – crynodeb ar Adweithydd Modiwlar Bach Rolls-Royce

## Cymwys i Gymru a Lloegr

Cynnwys


1. Proses yr Asesiad Dyluniad Generig
2. Amserlen arfaethedig
3. Cyflwyno gwybodaeth


Mae'r datganiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn Cam 1 (Cychwyn) yr Asesiad Dyluniad Generig (GDA, sef *Generic Design Assessment*) o ddyluniad gorsaf ynni niwclear Adweithydd Modiwlar Bach (SMR, sef *Small Modular* Reactor) gan Rolls-Royce.

Rolls Royce SMR Ltd yw'r 'ymgeisydd' a gyflwynodd y cynllun hwn ar gyfer GDA. Mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol – sef Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) – yn gweithio'n agos â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR, sef *Office for Nuclear Regulation*) ar GDA.

Mae dyluniad SMR Rolls-Royce yn adweithydd dŵr dan wasgedd gydag allbwn trydanol o 470 megawatt. Disgrifir yr adweithydd hwn fel un modiwlar gyda llawer o gydrannau wedi'u hadeiladu mewn amodau ffatri ac wedi'u cydosod ar y safle.

## 1. Proses y GDA

Mewn GDA, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC yn asesu a yw agweddau amgylcheddol ar ddyluniad adweithydd newydd yn dderbyniol. Caiff hyn ei wneud cyn i unrhyw ddatblygwr wneud cais i ddefnyddio'r dyluniad ar safle penodol. Mae GDA yn galluogi'r rheoleiddwyr i fod yn rhan o'r dyluniad yn gynnar, pan ellir cael y dylanwad mwyaf. Mae hefyd yn helpu i gynyddu hyder rheoleiddiol yn y dyluniad, sy'n debygol o fod o ddiddordeb i ddylunwyr, buddsoddwyr a darpar weithredwyr.

Cam 1 y GDA yw paratoi ar gyfer yr asesiad dylunio. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC yn rhoi cyngor i'r ymgeisydd ar gwmpas yr asesiad a datblygiad ei gyflwyniadau technegol. Maent hefyd yn cytuno ar y dull ariannu a'r trefniadau sy'n

angenrheidiol i sicrhau bod y GDA yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Maent hefyd yn asesu gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r cwmpas y cytunwyd arno ar gyfer y GDA.

Dechreuodd y rheoleiddwyr amgylcheddol ar Gam 1 y GDA ar gyfer SMR Rolls-Royce ym mis Ebrill 2022 a pharhaodd am 12 mis.

Ar ddiwedd Cam 1, y casgliad yw:

- mae'r ymgeisydd, Rolls-Royce SMR Ltd, wedi cwblhau holl elfennau Cam 1 sydd eu hangen er mwyn symud i Gam 2 – sef Asesiad Sylfaenol y GDA

- mae gan y rheoleiddwyr amgylcheddol a Rolls-Royce SMR Ltd adnoddau digonol ac maent yn barod i symud i Gam 2.

Felly, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC wedi cytuno â Rolls-Royce SMR Ltd y gall Cam 2 ddechrau ym mis Ebrill 2023.

Wrth ddod i'r dyfarniad hwn, mae Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC wedi ymgysylltu'n helaeth â Rolls-Royce SMR Ltd a'r ONR i adolygu addasrwydd yr holl wybodaeth berthnasol (y cyflwyniadau) a gafwyd yn ystod Cam 1.

Mae'r rheoleiddwyr wedi cytuno bod cwmpas y GDA yn briodol. Darparodd Rolls-Royce SMR Ltd ddigon o wybodaeth a manylebau swyddogaethol ar gyfer y dyluniad fel y gellid cynnal GDA ystyrlon.

Mae Rolls-Royce SMR Ltd wedi cadarnhau ei fod yn ceisio cwblhau pob un o'r tri cham o'r GDA a'i fod yn anelu at gael datganiad o dderbynioldeb dyluniad (SoDA, sef *Statement of Design Acceptability)* ar ddiwedd Cam 3.

Mae'r Rheoleiddwyr amgylcheddol o'r farn y dylai'r cwmpas cyffredinol fod yn ddigon i Rolls-Royce SMR Ltd anelu at gael SoDA, yn amodol ar ganlyniadau asesu derbyniol.

# 2. Amserlen arfaethedig

Yr amserlen arfaethedig ar gyfer y GDA hwn yw symud i Gam 2 ym mis Ebrill 2023 - ac mae'r rheoleiddwyr amgylcheddol wedi cytuno i hyn.

Nod Rolls-Royce SMR Ltd yw cwblhau Cam 2 ym mis Gorffennaf 2024 ac wedyn cwblhau Cam 3 – sef Asesiad Manwl – ym mis Awst 2026. Bydd mynediad i Gam 3 yn amodol ar gytundeb rheoleiddio, a chadarnhad bod cyllid ac adnoddau priodol ar gael.

# 3. Cyflwyno gwybodaeth

Mae Rolls-Royce SMR Ltd wedi darparu cynlluniau cwmpas a chyflwyno ar gyfer pob pwnc y bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC yn ei asesu yng Ngham 2. Mae'r

rheoleiddwyr wedi trafod y cynlluniau hyn gyda Rolls-Royce SMR Ltd, ac o’r farn eu bod yn ddigonol i gynnal asesiad ystyrlon.

Mae’r rheoleiddwyr wedi cytuno ar yr amserlenni cyflwyno ar gyfer pob pwnc, ond mae’r cynlluniau hyn yn agored i’w newid a bydd y rheoleiddwyr yn parhau i drafod yr amserlen gyflwyno ar gyfer Cam 2. Mae Rolls-Royce SMR Ltd hefyd wedi gosod strwythur derbyniol ar gyfer y cyflwyniadau sy’n rhan o’r achos amgylcheddol.

Mae cytundeb rhyngwyneb ar waith sy’n nodi sut y bydd Rolls-Royce SMR Ltd yn cyflwyno gwybodaeth, a sut y bydd y rheoleiddwyr yn tracio hynny.

Mae trefniadau ar waith hefyd ar gyfer gohebiaeth a chyfarfodydd, a sut y bydd ymholiadau rheoleiddiol, sylwadau rheoleiddiol, a materion rheoleiddiol yn cael eu codi a’u tracio.

Mae cyflwyniadau Rolls-Royce SMR Ltd yn mynd i’r afael yn ddigonol â’r holl ofynion gwybodaeth a nodir yn ein canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer Cam 1.

Mae Rolls-Royce SMR Ltd wedi nodi sut y bydd yn rheoli’r broses sylwadau ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i’r cyhoedd ar wefan yn ystod Cam 2. Rydym wedi cytuno bod y trefniadau hyn yn addas ac y byddant yn barod ar gyfer dechrau Cam 2.

Mae adroddiad ‘Cam 1 Asesiad Dyluniad Generig Adweithydd Modiwlar Bach Rolls-Royce: datganiad canfyddiadau’ yn nodi’n fanylach y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Cam 1 a barn y rheoleiddwyr ar bynciau perthnasol.